SUL CYFFREDIN 13

HOSEA 11:1-11; SALM 107:1-9, 43;
COLOSIAID 3:1-11; LUC 12:13-21

● **Gweddi agoriadol**

Dad pawb,
dyma ni dy blant
yn dod ynghyd
mewn cymdeithas â thi.

Waredwr pawb,
down ynghyd i ddathlu,
i ddathlu'r cariad
sy'n hanu ohonot ti.

Ysbryd pawb,
down ynghyd yn ddisgwylgar
a'n calon yn barod
i dderbyn gennyt ti.

Drindod gogoneddus,
down ynghyd i addoli,
i ddatgan y ffydd
sydd gennym ynot.

● Moliant

Diolchwch i'r Arglwydd, canys da yw;
mae ei gariad yn gynhwysol,
yn cofleidio'r cread!
Diolchwch i'r Arglwydd, canys da yw,
yn dwyn cyflawnder,
a heddwch y tu hwnt i ddeall.
Diolchwch i'r Arglwydd, canys da yw,
mae ei freichiau'n llydan agored,
yn croesawu'r afradlon adre.
Diolchwch i'r Arglwydd, canys da yw,
ei addewidion yn sicr,
ei deyrnas yn dragwyddol.
Diolchwch i'r Arglwydd, canys da yw.

● Cyffes

Dduw cariadus,
mor aml mae ein bywydau
yn methu adlewyrchu'r cariad
a ddangosi tuag atom,
yn hynny rydym yn dy siomi.
Gofynnwn am drugaredd
a maddeuant.
Rydym yn ddall
i anghyfiawder,
ac yn fyddar
i leisiau sy'n gweiddi mewn angen.
Dilynwn ein llwybr ein hunain
drwy ein bywyd, a dewis anwybyddu yr un
y dymunet i ni ei droedio,
gan ofni niwed.

Cymer ein bywydau, Arglwydd da,
adfer ynom y cariad
a adwaenem unwaith,
a gad iddo lifo o'n calonnau
i'r byd,
a throi'n fendith
a rannwn yn hael.

● **Diolch**

Deuwn yn awr, Arglwydd,
gyda diolch cywir,
am y gallwn droi atat
pan yw popeth ar chwâl
ac yn athrist,
pan yw atebion
yn swnio'n ffuantus
a ffydd yn baglu
i aros yn fyw.

Gallwn droi atat,
yr un a brofodd
dristwch gwrthod
a phoen aberth.
Gallwn droi atat,
yr un a brofodd
orfoledd atgyfodiad,
a dwyn atom addewid
bywyd newydd.
Gallwn droi atat
a chanfod tangnefedd
a chysur i'n heneidiau.
Diolch, Arglwydd.